**Rhif: WG49257**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

# Diwygiadau i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017

Chwefror 2024

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron 2024
ISBN ddigiol 978-1-83577-516-5

## Trosolwg

Mae’r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad ar ddiwygiadau i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017.

## Camau i'w Cymrydd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

## Manylion cyswll

I gael rhagor o wybodaeth:

Is-adran Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ebost: PCETReform@llyw.cymru

### Copïau Ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Linc i'r dogfennau ymgynghori: Diwygiadau i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 | LLYW.CYMRU

**Cefndir**

Fe wnaeth Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ddarparu ar gyfer sefydlu Comisiwn newydd ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil ('y Comisiwn').

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil fydd y corff rheoleiddio a fydd yn gyfrifol am gyllido, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Mae addysg drydyddol yn cwmpasu addysg ôl-16 gan gynnwys addysg bellach ac addysg uwch, dysgu oedolion yn y gymuned ac addysg seiliedig ar waith, prentisiaethau a chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol.

Cynhaliwyd nifer o ymgynghoriadau yn ymwneud â gweithredu'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil, ac roedd yr ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar Reoliadau drafft Llywodraethu Digidol (Cyrff Cymreig) 2024 a fyddai, fel y'u drafftiwyd, yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 8 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017. Cynigir tynnu'r cyfeiriad presennol at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ('CCAUC') a rhoi'r Comisiwn yn ei le. Byddai'r Rheoliadau hyn yn dod i rym o'r dyddiad y daw'r Comisiwn yn weithredol, ar yr un pryd ag y diddymir CCAUC.

Bydd y Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. Yn amodol ar gwblhau'r ddyletswydd ymgynghori statudol, rhagwelir y bydd y ddadl yn y Cyfarfod Llawn yn digwydd ar 16 Gorffennaf 2024 cyn i'r Rheoliadau gael eu gwneud a'u dwyn i rym o 1 Awst 2024.

Cyn i'r Rheoliadau gael eu gwneud i ychwanegu'r Comisiwn at Atodlen 8 i Ddeddf 2017, rhaid i Weinidogion Cymru fodloni'r ddyletswydd ymgynghori statudol fel y darperir ar ei chyfer yn adran 56(12) o Ddeddf 2017. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol:

a. Y Comisiynydd Gwybodaeth,
b. Comisiynwyr Cyllid a Thollau ei Fawrhydi,
c. unrhyw berson arall sy'n awdurdod cenedlaethol priodol mewn perthynas â Rheoliadau o dan is-adran (6),
d. lle nad y Gweinidog perthnasol yw'r awdurdod cenedlaethol priodol, y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet, ac
e. unrhyw un arall sy'n briodol ym marn yr awdurdod cenedlaethol priodol.

Cynhaliodd swyddogion ymgynghoriad deuddeg wythnos rhwng 2 Hydref a 22 Rhagfyr 2023, a oedd yn cynnwys ymgysylltu â phob un o'r cyrff a restrir uchod.  Yr awdurdodau cenedlaethol mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn oedd Gweinidog(ion) perthnasol y DU, Gweinidogion yr Alban, a'r Adran Gyllid yng Ngogledd Iwerddon. Cafwyd ymateb gan Weinidogion yr Alban.

Fel rhan o'r ymgynghoriad cyffredinol, gwahoddwyd ymatebwyr i ddarllen y ddogfen ymgynghori ar-lein ac ymateb i bob un o'r cwestiynau trwy e-bost, holiadur post neu ffurflen ar-lein.

**Strwythur yr ymgynghoriad**

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 3 chwestiwn yn ymwneud â'r newid arfaethedig. Cyhoeddwyd y Rheoliadau drafft ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori.

**Ynglŷn â'r dadansoddiad**

At ddibenion dadansoddi, cadwyd yr holl ymatebion yn ddiogel. Lle y cytunodd yr ymatebwyr i hynny, cofnodwyd eu manylion ynghyd â manylion eu hymateb i'r ymgynghoriad.

Roedd y sylwadau a gafwyd yn canolbwyntio'n bennaf ar y polisi o fewn cwmpas yr ymgynghoriad.

Bwriedir i'r ddogfen hon fod yn grynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law. Nid yw'n ceisio cofnodi pob pwynt a godwyd gan yr ymatebwyr ond yn hytrach mae'n tynnu sylw at y themâu allweddol. Ceir crynodeb o brif themâu a phenawdau'r ymatebion yn y ddogfen hon sydd wedi cadarnhau'r dull polisi arfaethedig.

- **Cwestiwn 1 – *A ydych yn cytuno y dylid tynnu'r cyfeiriad at CCAUC a rhoi'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn ei le yn y rhestr o bersonau penodedig yn Rhan 2 o Atodlen 8 o Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017?***

  Cytuno: 3, Anghytuno: 1

  Roedd yr ymatebydd a oedd yn anghytuno â'r polisi yn cyfeirio'n fwy cyffredinol at bolisi iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru yn hytrach na'r cynnig fel y nodwyd.

  Ni chafwyd unrhyw sylwadau eraill.

- **Cwestiwn 2 – *Hoffem wybod eich barn ar yr effaith y byddai tynnu'r cyfeiriad at CCAUC a rhoi'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn ei le yn y rhestr o bersonau penodedig yn Rhan 2 o Atodlen 8 o Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 yn ei chael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau negyddol?***

  Roedd yr ymatebwyr yn fodlon na fyddai'r newid arfaethedig yn effeithio ar y cyfleoedd Cymraeg ac y bydd y sefyllfa yr un fath â phan oedd y cyfeiriad at CCAUC yn yr atodlen. Y hwnt i'r cwestiwn penodol, cyfeiriwyd at yr effaith ar adnoddau wrth gynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

- **Cwestiwn 3 – *Esboniwch hefyd sut ydych chi'n credu y gallai tynnu'r cyfeiriad at CCAUC a rhoi'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn ei le yn y rhestr o bersonau penodedig yn Rhan 2 o Atodlen 8 o Ddeddf yr***

***Economi Ddigidol 2017, gael ei ffurfio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn , llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.***

Roedd yr ymatebwyr yn fodlon na fyddai cyfeirio at y Comisiwn yn hytrach na CCAUC yn effeithio ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac roeddent yn hyderus bod y trefniadau newydd yn cynnal ac yn diogelu hawliau siaradwyr Cymraeg, a bod mecanweithiau digonol ar waith i'r Gymraeg beidio â chael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Casgliad**

Cawsom 4 ymateb i'r ymgynghoriad, ac roedd 2 ohonynt gan y sector Addysg Drydyddol yng Nghymru ac 1 gan un o'r ymgyngoreion statudol. Rydym wedi ystyried pob ymateb, ac maent wedi cadarnhau y dylid tynnu'r cyfeiriad at CCAUC a rhoi cyfeiriad at y Comisiwn yn ei le yn y rhestr o bersonau penodedig yn Rhan 2 o Atodlen 8 o Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017.